# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 25 Medi 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda

(82)v3

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cefnogi Myfyrwyr Cymreig - wedi'i ohirio tan 2 Hydref**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol: dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar 20 Medi (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol
http://wales.gov.uk/consultations/equality/frameworkforactionconsultation/?lang=cy

**5. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Canlyniadau TGAU Saesneg Iaith 2012 (30 munud)**

**6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyngor Sir Ynys Môn (30 munud)**

**Dogfen Ategol**

Cyngor Sir Ynys Mon - Gwella Llywodraethau Corfforaethol - Adroddiad Cynnydd gan Gomisiynwyr Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2012/09/14/adroddiad-comisiynwyr-chwarter-5.pdf

**7. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Cynllun llaeth – y wybodaeth ddiweddaraf ar gefnogaeth i'r diwydiant llaeth (30 munud)**

**8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio (15 munud)**
**NDM5012 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2012 sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol**

I weld copi o'r Bil ewch i:

Dogfennau'r Bil — Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio 2012-13 — Senedd y DU

Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**9. Dadl ar Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Annibynnol (60 munud)**

**NDM5047 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Grwp Cynghori Annibynnol, Tuag at Deddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol.

**Dogfennau Ategol**

Gellir gweld y ddogfen Tuag at Deddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol drwy'r linc a ganlyn:

http://cymru.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/towardsawelshplanningact/?lang=cy

Agweddau'r cyhoedd tuag at y system gynllunio yng Nghymru

Dull Newydd o Reoli Datblygu yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i dreialu system achredu ar gyfer asiantau cynllunio.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella capasiti'r system gynllunio drwy ddatblygu un Gwasanaeth Cyngor a Hyfforddiant Cynllunio Cenedlaethol i gynorthwyo adrannau cynllunio lleol i hyfforddi a datblygu eu staff.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth yr oedi sylweddol gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno ei Bil Cynllunio.

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 26 Medi 2012